# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 44 Darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro

(1) Rhaid i bennaeth sy'n gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42 roi'r wybodaeth a ddisgrifir yn is-adrannau (3) a (4), yn ysgrifenedig, i—

(a) y disgybl y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef,

(b) rhiant y disgybl,

(c) corff llywodraethu'r ysgol, a

(d) yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.

(2) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir sy'n gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad o dan reoliadau a wneir o dan adran 42 roi'r wybodaeth a ddisgrifir yn is-adrannau (3) a (4), yn ysgrifenedig, i—

(a) rhiant y plentyn y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef, a

(b) yr awdurdod lleol sy'n sicrhau'r addysg.

(3) Yr wybodaeth yw—

(a) y ffaith bod y penderfyniad wedi ei wneud, ei amrywio neu ei ddirymu;

(b) effaith y penderfyniad, yr amrywiad neu'r dirymiad;

(c) y rhesymau dros wneud, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 44 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 28 Ionawr 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(d) gwybodaeth am—
   (i) yr hawl i wneud apêl o dan adran 45 (yn achos penderfyniad sy'n ymwneud â disgybl);
   (ii) yr hawl i wneud apêl o dan adran 46 (yn achos penderfyniad sy'n ymwneud ag unrhyw blentyn arall).

(4) Pan fo penderfyniad wedi ei wneud neu ei amrywio, rhaid i'r wybodaeth hefyd gynnwys—
   (a) disgrifiad o'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer addysg y disgybl neu'r plentyn yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad;
   (b) disgrifiad o'r ffordd y mae'r pennaeth neu'r darparwr yn bwriadu sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu i'r disgybl neu'r plentyn ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1)(a) yn gymwys os yw'r pennaeth yn ystyried nad oes gan y disgybl y galluedd i ddeall—
   (a) yr wybodaeth a roddid, neu
   (b) yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl a roddir gan adran 45.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 44 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)** |
| **I2** | A. 44 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.** |
| **I3** | A. 44 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d) |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 44 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 28 Ionawr 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
- s. 44 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(e)
- s. 44 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(b)
- s. 44 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(b)